# Polisi
# Cerbyd Uwchraddol
# Esemptiad Plât Cerbyd
# 2021

Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai
Trwyddedu
Blwch Post 1
Conwy LL30 9GN
licensing@conwy.gov.uk
www.conwy.gov.uk/licensing
www.facebook.com/conwylicensing

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# Gwasanaeth Rheoleiddio a Thai (Gwarchod y Cyhoedd)

## Enw'r Polisi:

**Polisi Cerbyd Uwchraddol/esemptiad plât.**

| | |
|---|---|
| **Awdur/Ceidwad:** | Samantha Jones<br>John Donnelly |
| **Dyddiad cytuno a gweithredu:** | |
| **Cytunwyd gan:** | Y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol |
| **Amlder Adolygu:** | Adolygiad Blynyddol |
| **Dyddiad adolygu:** | |
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau: (dyddiad)** | Amh. |
| **Cyfraniad Aelodau (os o gwbl)** | Aelod Cabinet/Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli |
| **Mewnol neu gyhoeddus:** | Mewnol/cyhoeddus |

| **RHEOLI FERSIYNAU:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod:** | **Statws:** | **Awdurdodwyd gan:** | **Dyddiad:** |
| 001 | | | |
| 002 | | | |
| | | | |

| **SWYDDOGAETH** | **SWYDDOG** |
|---|---|
| Prosesu cais | Swyddog Trwyddedu |
| Nacáu cais | Prif Swyddog Trwyddedu/Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Atgyfeirio'r cais at y Pwyllgor Trwyddedu | Prif Swyddog Trwyddedu/Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Caniatáu/adnewyddu cais | Prif Swyddog Trwyddedu/Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Gwrthod cais | Pennaeth Gwasanaeth/Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio Cyffredinol |

## 1. Pwrpas

Mae nifer o weithredwyr cerbydau hurio preifat yn rheoli neu'n gweithredu cerbydau arbenigol ar gyfer contractau neu gleientiaid penodol, gyda llawer yn cyfeirio at weithredoedd o'r fath fel gwasanaethau a cherbydau uwchraddol neu yrrwr.

Mae cerbydau o'r fath yn amlwg yn dod o fewn y ddeddfwriaeth cerbydau hurio preifat presennol ac felly dylai'r gweithredwr, gyrrwr a'r cerbyd gael eu trwyddedu'n briodol.

Gall cerbydau o'r fath ymgeisio ar gyfer esemptiad rhag arddangos platiau trwydded a lifrai a ddiffinir yn statudol ac mewn polisi.

Mae'r polisi hwn yn cynnwys y gofynion a ddisgwylir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) er mwyn ymgeisio am esemptiad a chaniatáu i gerbydau gael eu hystyried fel Cerbydau Hurio Preifat Uwchraddol.

## 2. Deddfwriaeth

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976

## 3. Diffiniad CBSC o Logi Cerbyd Uwchraddol

Oherwydd nad oes yna ddiffiniad cyfreithiol o 'Hurio Cerbyd Uwchraddol', rydym wedi cyfeirio at y diffiniad yn y geiriadur o 'uwchraddol' i gynorthwyo gyda dehongliad.

Mae Geiriadur Saesneg Rhydychen yn rhoi'r diffiniad hwn: "UWCHRADDOL"

Unigolyn gyda chyfrifoldeb uwch reolwyr mewn sefydliad busnes

## 4. Manyleb Cerbyd

Bydda'r defnyddiwr cyffredin yn rhagweld y byddai swyddog gweithredol yn teithio mewn cerbyd safonol gyda manyleb uwch na cherbyd safonol. Mae enghreifftiau o'r math o gerbydau a ragwelir yn safonol yn gerbydau sy'n dod o fewn y dosbarth gweithredol o frandiau fel Mercedes, BMW, Audi, Jaguar a Lexus ac ati.

Fodd bynnag, nid ydym eisiau ffurfio rhestr ragnodol o gerbydau derbyniol na chyfyngu'r math o gerbydau fyddai'n cael eu hystyried â statws safonol. Felly, mae CBSC wedi cymeradwyo meini prawf cyffredinol:

Mae ystyriaethau pa un a yw y cerbyd yn cael ei ystyried yn gyffredinol neu'n cael ei ystyried fel cerbyd uwchraddol yn cynnwys pethau fel enw da, manyleb, ymddangosiad, cysyniad a lefelau cyfforddus uwch. Yn ychwanegol, gall y canlynol fod yn arwydd (ond nid yn derfynol) bod cerbyd yn gerbyd gweithredol ac y gall yr esemptiad fod yn briodol:

1. Maint injan 2000/hybrid neu drydan cyfatebol (mae'r Awdurdod yn annog yn weithredol a bydd yn blaenoriaethu ceisiadau ar gyfer cerbydau trydan neu hybrid, sy'n diwallu gofynion y polisi hwn).

2. Mae pob sedd yn ddimensiwn ddigonol ac yn caniatáu mynediad uniongyrchol i mewn ac allan drwy ddrysau ochr y cerbyd heb orfod symud, tynnu na phlygu unrhyw sedd.

*Bydd ceisiadau ar gyfer unrhyw gerbydau gyda mwy na phedair sedd teithiwr yn cael eu hystyried yn unigol, ond bydd ond yn cael ei drwyddedu ar gyfer y nifer o deithwyr sydd ym marn y swyddog archwilio yn gallu eistedd yn gyfforddus ac mewn modd y byddai defnyddiwr ar gyfartaledd yn credu y dylai cerbyd uwchraddol ei gynnig).*

3. Pris gwreiddiol unrhyw gerbyd yw isafswm o £25,000 beth bynnag ei oed wrth gyflwyno cais

4. Mae'r cerbyd yn cynnwys isafswm manyleb aerdymheru/rheoli hinsawdd ar gyfer y seddi blaen a'r cefn, holl ffenestri trydan, cloi canolog a chynhaliwr pen blaen a chefn ar gyfer pob teithiwr unigol.

5. Bydd cerbydau angen llenwi'r gofynion oed presennol ar gyfer cerbydau hurio preifat.

## 5. Gyrwyr

1. Mae'n rhaid i yrwyr fod â thrwydded cerbydau hurio preifat Conwy neu drwydded cerbyd hacni Conwy.

2. Mae angen cod gwisg sy'n gymesur â gwaith gweithredol. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu manylion y cod gwisg (siwt/siaced neu gyfatebol) y mae'r gweithredwr/gweithredwyr maent yn gweithio iddynt yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio. Mae'n rhaid dilyn cod gwisg bob amser pan fydd y cerbyd wedi'i eithrio rhag arddangos platiau llogi preifat safonol (sy'n ymwneud â gwaith gweithredol).

3. Mae'n rhaid i'r gyrrwr fod â thrwydded yrru cerbydau hurio preifat neu gerbyd hacni Conwy yn eu meddiant bob amser tra'n gyrru.

(*Nid yw'n ofynnol arddangos y drwydded)*

## 6. Ceisiadau

1. Mae'n rhaid gwneud pob cais ar gyfer cerbyd llogi preifat uwchraddol drwy borthol/wefan ar-lein CBSC
2. I sicrhau cysondeb a sicrhau safonau uchel ble bo'n ymarferol a chyn caniatau, mae'n rhaid i bob cerbyd gael ei archwilio gan y swyddog trwyddedu penodedig.

## 7. Dirprwyaeth

Ble mae gan Swyddogion Trwyddedu bwerau dirprwyol i roi trwydded, byddant yn defnyddio’r canllawiau hyn wrth wneud penderfyniad i roi trwydded. Ym mhob achos, bydd ceisiadau am drwydded yn cael eu cyfeirio i’r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol. Er y bydd swyddogion a'r Pwyllgor yn cyfeirio at y canllawiau yn y polisi, bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol, a ble mae’r amgylchiadau yn galw am hynny, gall y pwyllgor/swyddog adael y canllawiau (mae’n rhaid cofnodi manylion amgylchiadau o’r fath a’u cadw gyda’r cais/adnewyddu).

## 8 Cyffredinol

1. Bydd cerbydau hurio preifat uwchraddol wedi eu heithrio rhag arddangos platiau cerbydau hurio preifat safonol ar y drws a’r cefn, ond byddant yn derbyn plât llogi gweithredol (aur) sy’n rhaid ei arddangos ar gefn y cerbyd.

2. Ni chaniateir lifrai nac hysbysebion ar gerbydau uwchraddol heblaw am frandio cynnil, logo cwmni, manylion cyswllt ar gefn y cerbyd os bydd y gweithredwr yn dymuno.

3. Ni chaniateir i gerbydau platiau uwchraddol i unrhyw fath o gontract ysgol mewn perthynas â chludo plant.

4. Mae’n rhaid i unrhyw archeb ar gyfer taith mewn cerbyd eithriedig fod ar ffurf contract ysgrifenedig. Mae’n rhaid i gontract o’r fath gael ei wneud o leiaf 24 awr cyn dechrau’r daith.

5. Gall torri amodau’r Cerbyd Esempt arwain at dynnu statws esempt y cerbyd, ac ar y pwynt hwnnw, yn tybio y bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio fel Cerbyd Hurio Preifat, bydd y cerbyd angen arddangos y platiau Cerbyd Hurio Preifat safonol presennol ar y cefn a’r drws.